

Trin y gerddi

Ar ddeugeinfed pen-blwydd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Amser maith yn ôl
roedd yna ddwy ardd gymen,
eu coed yn ir a'u perthi'n loyw,
gwelyau'u llyisiau a'u perllannau
yn meithrin egni cenedl.

Ond rywbryd yn y ganrif ddiwetha,
daeth anhrefn i blith y garddwyr -
rhai'n ddi-glem, rhai yn hepian.
Gwthiodd nadroedd mieri milain
drwy'r cloddiau rhwng y naill ardd a'r llall,
mynnu'u lle yn y borderi,
llindagu glendid y llwyni.

Bu'n rhaid ysgwyd y garddwyr,
eu deffro a'u galw o'u hencilion
i afael yn eu harfau,
eu cymell i fireinio a thocio,
i ofalu a charu;
eu dysgu i siarad â'i gilydd yn gall,
i dderbyn y naill estron
a thorri crib y llall,
heb sôn am ddethol planhigion
ar gyfer gwahanol ddibenion.

Ac yn wir i chi, aethant ati
i drwsio'r cloddiau a chlirio llysnafedd y pyllau,
i godi'r chwyn a thendio'r llwybrau,
glanhau madredd y perllannau,
gwasgar gwrtaith cenedlaethau.

Ac wedi deugain mlynedd,
mae'n loywach eto yng ngerddi'r genedl.

Glenys M Roberts, Hydref 2016